**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET CYNGOR GWYNEDD**
**YN EISTEDD FEL YMDDIRIEDOLWYR YMDDIRIEDOLAETH ELUSEN AMGUEDDFA LLOYD GEORGE**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 13 Mai 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 28 Mai 2025 |

**PWNC**

Eitem 6: YMDDIRIEDOLAETH ELUSEN AMGUEDDFA LLOYD GEORGE

---

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd i

1. Gymeradwyo arwyddo'r Memorandwm o Ddealltwriaeth sy'n gosod trefniadau cydweithio ffurfiol rhwng Ymddiriedolwyr Ymddiriedolaeth Elusen Amgueddfa Lloyd George (Yr Ymddiriedolaeth) a Chyngor Gwynedd (Y Cyngor).
2. Cymeradwyo fod gwaith o dydd i ddydd o redeg yr amgueddfa ar ran yr elusen yn cael ei roi i wasanaethau Cyngor Gwynedd.
3. Cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl Drafft ar gyfer y Bwrdd Cydweithio sy'n gosod y trefniadau cydweithio rhwng Yr Ymddiriedolaeth, Y Cyngor a Chyfeillion Amgueddfa Lloyd George (Y Cyfeillion).
4. Derbyn y diweddariad ar weithredu'r Achos Busnes a chyfraniad y Cyfeillion.
5. Ymateb i'r prosiect SPF a'r cynlluniau i greu arddangosfeydd newydd.
6. Cefnogi bod y Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau yn cyflwyno cais i SPF 2 ar ran yr Ymddiriedolaeth er mwyn datblygu cynlluniau ar gyfer y dyfodol a gweithgareddau cysylltiol i ymgysylltu a marchnata'r Amgueddfa.

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

O ganlyniad i benderfyniad Cabinet Cyngor Gwynedd ar 15 Chwefror 2022 i ddarparu cyllideb i barhau i redeg yr Amgueddfa, adolygwyd Achos Busnes yr amgueddfa ac ymchwiliwyd i'r trefniadau llywodraethu mwyaf priodol ar gyfer y dyfodol.

Yn sgil derbyn cyllid trwy Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, fe gomisiynwyd Dr Kevin Mason i weithio gyda Cyngor Gwynedd i adolygu trefniadau llywodraethu'r Amgueddfa.

Mae angen i'r ymddiriedolwyr gymeradwyo arwyddo'r Memrandwm o Ddealltwriaeth gan ei fod yn ffurfioli'r berthynas weithredol rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Cyngor. Nodir fod y Memorandwm yn ffurfioli'r berthynas rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r gwasanaethau a ddarperir gan Cyngor Gwynedd ac nid oes ganddo statws gyfreithiol.

---

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.